# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Clwb Cwl Pitian Patian**

**Tŷ Hen**
**Llanwnda**
**Caernarfon**
**LL54 5SD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**5 Medi 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Lleolir Clwb Cwl Pitian Patian ar safle Meithrinfa Pitian Patian ym mhentref Llanwnda, ar gyrion Caernarfon, Gwynedd. Mae gan y gwasanaeth ei ystafell benodol ei hun sy'n cynnwys ei fynedfa ei hun. Ceir cegin fach a thai bach, ynghyd ag ardal chwarae gaeedig yn yr awyr agored. Gall y gwasanaeth hefyd ddefnyddio'r cyfleusterau yn y feithrinfa drws nesaf. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ofalu am hyd at 32 o blant ar unrhyw adeg ac mae ar gael ar gyfer plant rhwng 4 a 12 oed. Mae ar agor rhwng 7:30am a 9:00am a rhwng 3:00pm a 6:00pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor a rhwng 7:30am a 6:00pm yn ystod gwyliau'r ysgol. Yr unigolion cyfrifol yw Judith Owen a John Owen a'r person â chyfrifoldeb yw Eirianwen Williams. Prif iaith y gwasanaeth yw'r Gymraeg ac mae'n gweithredu'r 'Cynnig Rhagweithiol', sy'n golygu y gall plant a rhieni gyfathrebu â staff drwy gyfrwng y Gymraeg heb orfod gofyn am hyn.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac yn mwynhau treulio amser yn y gwasanaeth. Maent yn teimlo'n ddigon hyderus i fynegi barn a gwneud penderfyniadau am eu bod yn gwybod y caiff eu dewisiadau eu parchu. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn diwallu eu hanghenion. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd diogel ac addas i chwarae ac archwilio dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar waith ond dylent eu hadolygu a'u diweddaru yn rheolaidd fel bod staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn, er enghraifft, gweithdrefnau atal croeshalogi. Mae'r arweinwyr yn ceisio adborth am y gwasanaeth ac yn ystyried barn y rhieni a'r plant wrth brynu adnoddau a chynllunio gweithgareddau.

### 2. Gwelliannau

Ers yr ymweliad arolygu, rydym wedi cael copi diwygiedig o'r datganiad o ddiben, sydd bellach yn adlewyrchu'r gwasanaeth yn gywir. Rydym hefyd wedi cael tystiolaeth bod y wybodaeth gywir bellach wedi'i chynnwys yn y polisi cwynion a bod ymarfer tân wedi'i gynnal ar ôl ysgol.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaed argymhellion ynghylch lleihau croeshalogi wrth baratoi byrbrydau, ymarferion tân, goruchwylio staff a rhai agweddau ar ddogfennaeth.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu yn y clwb. Maent yn teimlo'n ddigon hyderus i fynegi barn ac yn hyderus y darperir gweithgareddau y gofynnant amdanynt. Mae cydberthynas dda rhwng y plant a'r staff ac maent yn edrych ymlaen at fynychu'r clwb.

### Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Caiff y plant wneud dewis ac maent yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt.

Cawsai'r plant ddewis yr hyn roeddent am ei wneud. Roeddent yn mynd o un gweithgaredd i'r llall yn ddirwystr ac yn teimlo'n ddigon hyderus i ofyn am gael adnoddau eraill. Er enghraifft, gofynnodd un plentyn am gael yr ysgolion rhaff allan o'r bocs, a chawsant eu darparu'n syth. Roedd pob ymgais i gyfathrebu â'r staff yn cael ei werthfawrogi ac roedd y plant yn teimlo'n hyderus y byddai'r staff yn gwrando arnynt. Er enghraifft, roedd y plant yn teimlo'n ddigon hyderus i ddweud wrth y staff os nad oeddent yn hoffi'r bwyd oedd ar gael, roedd eu dewisiadau yn cael eu parchu a chafwyd hyd i opsiwn arall yn gyflym. Dywedodd y plant y gallent ddewis gweithgareddau roeddent yn eu mwynhau ac eglurodd y person â chyfrifoldeb fod y plant yn gallu dylanwadu ar y gweithgareddau a oedd yn cael eu cynllunio yn ystod gwyliau'r ysgol drwy rannu themâu roedd ganddynt ddiddordeb ynddynt ac awgrymu syniadau o ran teithiau. Clywsom y plant yn trafod y rhain gyda'r person â chyfrifoldeb ac roeddent yn teimlo'n gyffrous am yr hyn a oedd ar y gweill ar gyfer gwyliau'r haf.

Mae'r plant yn teimlo y gallant fynegi eu hunain ac maent yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant wedi ymgartrefu ac yn fodlon eu byd

Roedd y plant wedi ymgartrefu ac yn amlwg yn teimlo'n gyfforddus yn y clwb. Roeddent yn gyfarwydd â'r gweithgareddau a oedd ar gael a'r drefn ddyddiol. Roedd enghreifftiau o'u gwaith yn addurno'r waliau ynghyd â lluniau ohonynt yn mwynhau gwahanol weithgareddau, gan roi ymdeimlad o berthyn i'r plant. Roedd y plant wedi meithrin cydberthynas agos â'r staff. Fe'u gwelwyd yn chwarae'n ddedwydd gyda'r staff ac roeddent yn awyddus i siarad â nhw ac adrodd hanes eu diwrnod. Roedd y plant yn gwybod â phwy i siarad os nad oeddent yn hapus neu os oedd angen help arnynt a byddent yn chwilio amdanynt am gysur a thawelwch meddwl. Dywedodd y plant y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau bod yng nghwmni'r staff a'u bod yn gwybod y dylent fynd atynt os byddai

unrhyw broblem. Nodwyd eu bod yn mwynhau mynychu'r clwb, chwarae gyda ffrindiau a gwneud pethau a oedd wrth eu bodd.

Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am eu bod wedi meithrin cydberthynas dda â'r staff.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant wedi meithrin cyfeillgarwch â'i gilydd ac yn mwynhau cwmni ei gilydd.

Roedd y plant yn fwy na pharod i chwarae gyda'u ffrindiau ac yn amlwg yn awyddus i'w cynnwys. Heb unrhyw anogaeth, gwelwyd grŵp mwy o faint o blant yn mynd ati i chwarae gem â phêl, lle gallai pawb ymuno. Yn eu tro, aethant ati i daflu'r bêl at y naill a'r llall, gan nodi beth y dylai pawb ei wneud, ac roeddent yn cydweithio'n dda. Cafwyd llawer o hwyl a sbri wrth iddynt fwynhau chwarae'r gêm gyda'i gilydd. Roedd bron pob un o'r plant yn barod i rannu adnoddau a chymryd eu tro. Cymerodd grŵp llai o faint o fechgyn eu tro yn taflu pêl fasged drwy'r cylch, gan aros eu tro yn amyneddgar. Cafwyd bloedd wrth i aelodau gwahanol o'r grŵp lwyddo i sgorio pwynt ac roeddent yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd.

Gall y plant rannu, cymryd eu tro a rhyngweithio'n dda â'i gilydd.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Gall y plant gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd wrth eu bodd.

Roedd gan y plant ddiddordeb yn y gweithgareddau a oedd ar gael iddynt. Gwelwyd y plant a oedd yn chwarae'r gêm â phêl yn chwerthin ac yn galw ar ei gilydd, ac yn arwain eu chwarae eu hunain. Roeddent wedi ymgolli'n llwyr yn y gweithgaredd hwn am gyfnod hir, ac wrth eu boddau. Roedd grŵp llai o faint o blant wedi dewis eistedd wrth fwrdd picnic a sgwrsio â'i gilydd, tra bod eraill yn mwynhau eu hunain ar y sgwteri. Roedd pob plentyn yn brysur ac yn ymddiddori yn y chwarae, ac yn amlwg yn mwynhau'r gweithgareddau dan sylw. Roedd y plant yn awyddus i ddweud wrthym am y pethau roeddent yn hoffi eu gwneud yn y clwb. Dywedodd dau blentyn wrthym eu bod yn mwynhau chwarae yn yr awyr agored pan oedd y tywydd yn braf. Dywedodd plentyn arall wrthym ei fod yn mwynhau chwarae ar y llechi gyda'i ffrindiau. Gallai'r plant hefyd ymlacio os oeddent yn dymuno gwneud hynny.

Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael a gallant ganolbwyntio ar dasg am gyfnod priodol o amser.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Caiff y plant rai cyfleoedd i feithrin sgiliau annibyniaeth a gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

Cawsai'r plant eu hannog i gwblhau rhai tasgau'n annibynnol. Roeddent yn gyfrifol am roi eu bagiau eu hunain o'r neilltu a'u casglu, tacluso i fyny ar ôl eu hunain a gallent arwain a

chyfarwyddo eu chwarae eu hunain. Wrth gael byrbrydau, methwyd â rhoi cyfle i'r plant feithrin eu sgiliau hunangymorth. Gwelwyd y staff yn gosod y byrddau, yn paratoi'r byrbrydau, yn arllwys y diodydd, yn clirio'r byrddau ac yn golchi'r llestri pan allai'r plant fod wedi bod yn gyfrifol am rai o'r tasgau hyn. Byddai rhoi mwy o gyfleoedd i'r plant helpu i baratoi a glanhau ar ôl cael byrbryd yn eu galluogi i feithrin sgiliau bywyd pwysig. Gwnaethom siarad â'r person â chyfrifoldeb a nododd, yn ystod gwyliau'r ysgol, fod y plant yn cael mwy o gyfleoedd i helpu i baratoi prydau a gweini bwyd i'r plant iau ond mai prin oedd y fath gyfle yn ystod y tymor am nad oedd digon o amser.

Gall y plant wneud pethau drostynt hwy eu hunain a chânt ryddid i bennu cyfeiriad eu chwarae eu hunain.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn annog ffyrdd o fyw iach drwy hyrwyddo pwysigrwydd gweithgarwch corfforol a rhoi digon o gyfleoedd i'r plant chwarae yn yr awyr agored. Maent yn annog ymddygiad da drwy ddangos esiampl a gosod ffiniau. Fodd bynnag, mae angen iddynt sicrhau eu bod yn dilyn y gweithdrefnau priodol yn gyson er mwyn lleihau'r risg o haint.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw plant yn ddiogel.

Hyrwyddai'r staff ffyrdd o fyw iach, drwy ddarparu byrbrydau iach gyda dŵr neu laeth i'w yfed. Fodd bynnag, nid oedd y staff yn annog y plant i olchi eu dwylo cyn cael byrbryd, ac felly roeddent yn cynyddu'r risg o haint. Hefyd, nodwyd nad oedd y staff yn gwisgo ffedogau untro wrth ddechrau paratoi'r byrbrydau, er iddynt wisgo un rhan o'r ffordd drwy baratoi'r bwyd. Gwnaethom siarad â'r person â chyfrifoldeb a thrafod yr angen i ddilyn gweithdrefnau priodol yn gyson er mwyn sicrhau bod y risg o groeshalogi yn cael ei lleihau. Hyrwyddai'r staff bwysigrwydd gweithgarwch corfforol a rhoddwyd digon o gyfleoedd i chwarae yn yr awyr iach yn ogystal â chyfarpar campfa arbenigol y gallai'r plant ei ddefnyddio dan do pan nad oedd y tywydd yn braf. Yn ystod ein hymweliad chwaraeodd y plant y tu allan am y rhan fwyaf o'r sesiwn. Cadarnhaodd y plant y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn aml yn mwynhau chwarae yn yr awyr agored a rhestrwyd rhai o'r gemau roeddent yn hoffi eu chwarae.

Roedd y staff yn awyddus i sicrhau bod y plant yn ddiogel yn ystod eu hamser yn y clwb. Roeddent wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant a gallent ddisgrifio'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn petai ganddynt bryder am blentyn. Roedd nifer briodol o staff wedi cael hyfforddiant Cymorth Cyntaf Pediatrig. Cawsai damweiniau a digwyddiadau eu cofnodi'n briodol; roeddent yn cael eu dyddio a'u llofnodi gan aelod o staff a'r rhiant neu'r gwarcheidwad.

Mae'r staff yn hyrwyddo ffyrdd o fyw iach ac maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ond mae angen iddynt sicrhau bod polisïau ac arfer gorau cyfredol y gwasanaeth o ran rheoli haint yn cael eu gweithredu bob dydd.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae cydberthynas gadarnhaol rhwng y staff a'r plant ac maent yn dangos esiampl dda ac yn defnyddio iaith briodol.

Roedd y staff yn siarad â'r plant mewn ffordd annwyl ac roedd cydberthynas dda rhyngddynt. Clywsom ddigonedd o firi. Ymdriniwyd ag unrhyw ddadlau neu ymddygiad amhriodol yn brydlon drwy gael y plant i ymgymryd â gweithgaredd arall ac egluro pam nad oedd hyn yn addas, mewn ffordd dyner. Roedd y staff yn dangos esiampl dda ac yn cynnig digon o anogaeth ac yn canmol y plant gryn dipyn am ymddwyn mewn ffordd gadarnhaol.

Roedd hyn yn unol â pholisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth. Clywsom ddigon o ganmoliaeth yn cael ei rhoi drwy gydol ein hymweliad am ymddygiad cadarnhaol, cwblhau gweithgareddau a rhoi cynnig ar bethau newydd. Roedd y staff hefyd yn annog y plant i ddangos cwrteisi, gydag ambell i ysgogiad bach, a chawsant eu canmol am ddweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch'.

Mae'r staff yn annog y plant i ymddwyn yn briodol a dangos cwrteisi, drwy strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn gallu adnabod arwyddion bod angen cymorth neu sicrwydd arnynt efallai.

Roedd y staff yn ymatebol pan oedd angen cymorth ar y plant. Roeddent yn gwybod pa blant a fyddai angen mwy o gymorth i gwblhau tasgau, gan gynnig y cymorth hwnnw iddynt. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'r hyn mae'r plant yn hoffi ei wneud a gallent gynnig gweithgareddau oedd o ddiddordeb iddynt. Cawsai'r plant a oedd angen mwy o gymorth i gwblhau tasgau hyn gan fod y staff yn gwybod pwy oedd angen cymorth a phwy a allai gwblhau tasgau drostynt eu hunain. Holwyd am yr hyn roedd yn well gan y plant a'i angen, gan gofnodi'r manylion ar ffeil cyn iddynt ddechrau mynychu'r clwb fel bod y staff yn gallu mynd ati i ddiwallu eu hanghenion. Gwelsom gynlluniau gweithgareddau ar gyfer gwyliau'r ysgol, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys teithiau i atyniadau lleol ac ymweliadau addysgol.

Mae'r staff yn annog y plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau ac maent yn ymateb yn gyflym i'w ceisiadau neu eu hanghenion.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd mewn cyflwr da a'i fod yn diwallu anghenion y plant. Nodir peryglon a rhoddir cynlluniau ar waith i leihau unrhyw risgiau. Fodd bynnag, mae angen i'r arweinwyr sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn fynych er mwyn sicrhau bod y plant yn ddiogel.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn awyddus i sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd glân a diogel.

Cawsai'r plant eu cofrestru i mewn ac allan o'r gwasanaeth ac roedd yr adeilad dan glo fel na allai unrhyw un heb awdurdod gael mynediad iddo. Gofynnwyd i ni ddangos ein cardiau adnabod ac arwyddo'r llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd. Roedd yr ardal awyr agored hefyd yn ddiogel. Roedd asesiadau risg cynhwysfawr ar waith ar gyfer pob ardal a oedd yn cael ei defnyddio gan y plant ac roeddent wedi'u diweddaru'n rheolaidd. Cadwyd cofrestr ddyddiol o bresenoldeb y plant fel bod modd rhoi cyfrif am bob aelod o staff a phob plentyn. Dangosai'r cofnodion fod ymarferion tân wedi'u cynnal yn rheolaidd ar y cyd â'r feithrinfa drws nesaf. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn y bore pan nad oedd y plant a fynychai'r clwb ar ôl ysgol yn bresennol. Gwnaethom siarad â'r person â chyfrifoldeb am hyn, a nododd fod ymarferion tân wedi cael eu cwblhau yn ystod gwyliau'r ysgol ond na chafwyd unrhyw rai ar ôl ysgol yn ystod y tymor. Fe'i cynghorwyd bod yn rhaid cynnal ymarferion tân gyda phob plentyn sy'n mynychu'r clwb ar adegau addas er mwyn sicrhau ei fod yn ymgyfarwyddo â'r hyn y mae'n rhaid ei wneud i adael yr adeilad yn gyflym ac yn ddiogel os bydd argyfwng. Cytunodd y person â chyfrifoldeb y byddai'n cwblhau ymarfer tân yn ddi-oed ac ers hynny rydym wedi gweld tystiolaeth bod ymarfer tân wedi'i gynnal yn ystod sesiwn brynhawn.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y safle yn gwbl ddiogel. Fodd bynnag, mae angen iddynt ymarfer gweithdrefnau gwagio mewn argyfwng yn fwy rheolaidd yn ystod sesiynau prynhawn er mwyn sicrhau bod y plant yn gyfarwydd â'r hyn y mae angen ei wneud i adael yr adeilad yn ddiogel os bydd argyfwng.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y plant.

Roedd yr ystafell chwarae wedi'i chynnal a'i chadw'n dda, roedd yn gyfforddus ac yn lân ac roedd yn cynnig digon o le i'r plant allu symud o gwmpas ac archwilio fel roeddent yn dymuno. Roedd yn hawdd i'r plant gael gafael ar deganau ac adnoddau, gan hyrwyddo annibyniaeth. Roedd y celfi a'r adnoddau i gyd yn diwallu anghenion y plant. Roedd byrddau a chadeiriau'r uchder cywir ac roedd cyfarpar ar gael i alluogi'r plant i ddefnyddio'r tŷ bach a chyflawni sgiliau hunangymorth yn annibynnol. Gwelwyd lluniau ac enghreifftiau o

waith y plant yn cael eu harddangos ar y waliau ac ar yr hysbysfwrdd yn y cyntedd, gan alluogi'r plant i rannu eu profiadau â'u rhieni pan fyddent yn dod i'w casglu. Cawsai'r plant ddefnyddio man penodol i gadw eu cotiau a'u bagiau. Roedd yr ardal awyr agored hefyd yn cynnig digon o le i'r plant chwarae ac archwilio.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd dan do ac awyr agored yn ddiogel, yn groesawgar ac yn gyfeillgar.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn gallu defnyddio mannau addas i archwilio a chwarae.

Roedd yr adnoddau mewn cyflwr da ac o ansawdd da. Mae'r arweinwyr wedi sicrhau bod y plant yn gallu defnyddio'r buarth, ac roedd y plant yn ei ddefnyddio. Roedd cyfarpar chwarae awyr agored ar gael i'r plant archwilio a chwarae. Roedd hefyd o ansawdd da ac yn ddiddorol ac yn addas i'r plant. Cawsai ei storio'n briodol felly roedd yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd amrywiaeth dda o gemau bwrdd, llyfrau, cylchgronau, DVDs, deunydd celf a chrefft a theganau i'r plant ddewis ohonynt. Roeddent i gyd yn lân ac mewn cyflwr da.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn gallu defnyddio ardaloedd chwarae dan do ac awyr agored sy'n diwallu eu hanghenion.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn awyddus i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Cymerwyd camau i gasglu adborth a gwella arferion. Meithrinwyd cydberthynas dda â'r rhieni a rhennir gwybodaeth yn effeithiol.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod polisïau ar waith a bod nodau ac amcanion y gwasanaeth yn glir i bob aelod o staff.

Clywsom y staff yn siarad Cymraeg drwy gydol y dydd, gan hefyd gynnig cymorth yn Saesneg os nad Cymraeg oedd iaith gyntaf plentyn. Roedd yr arweinwyr a'r staff i gyd yn ymrwymedig i ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Roedd polisïau ar waith ar gyfer pob agwedd ar redeg y gwasanaeth, ond dangosodd y cofnodion na chawsant eu hadolygu ers 2013. Gwnaethom siarad â'r person â chyfrifoldeb am hyn, a nododd eu bod wedi cael eu hadolygu ond na chofnodwyd hyn. Fe'i cynghorwyd i nodi pryd yr adolygwyd y rhain. Nid oedd rhif cyswllt y swyddog amddiffyn plant lleol yn y polisi amddiffyn plant a gwnaethom hefyd nodi y dylid ystyried cynnwys yr arwyddion corfforol ac ymddygiadol a all ddynodi bod plentyn yn cael ei gam-drin. Roedd hefyd angen i rif ffôn Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) gael ei ddiweddaru yn y polisi cwynion. Rydym bellach wedi cael cadarnhad bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen wedi'i chynnwys ym mhob un o'r polisïau hyn.

Edrychwyd ar ddatganiad o ddiben y gwasanaeth a gwelsom fod yr oriau agor a'r trefniadau staffio yn cyfeirio at rai'r feithrinfa drws nesaf yn hytrach na'r clwb ar ôl ysgol. Cawsom gopi diwygiedig gan y person â chyfrifoldeb yn ystod ein hail ymweliad a oedd yn adlewyrchu'r gwasanaeth a gynigir yn gywir.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau yn gyfredol, yn cael eu deall gan y staff ac yn hyrwyddo'r Gymraeg.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn ceisio adborth am eu gwasanaeth oddi wrth y staff, y plant a'r rhieni er mwyn gwella eu gwasanaeth.

Roedd yr arweinwyr wedi casglu adborth oddi wrth y rhieni a'r plant. Gallai'r staff leisio barn yn ystod cyfarfodydd staff a gofynnwyd i'r rhieni gwblhau holiaduron am y gwasanaeth. Casglwyd adborth y plant ar lafar, ynghyd â thrwy arsylwadau cyffredinol yn ystod sesiynau. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym fod y plant yn cael y cyfle i leisio barn wrth brynu adnoddau newydd neu drefnu gweithgareddau yn ystod gwyliau'r ysgol, a bod ceisiadau am grant yn cael eu gwneud yn fynych fel y gallent brynu mwy o gyfarpar chwarae awyr agored a gwella'r ardal awyr agored. Roedd adroddiad yn amlinellu'r ymatebion o'r adborth wedi'i lunio; fodd bynnag, roedd yn cyfuno adborth am y gwasanaeth hwn a'r feithrinfa drws nesaf,

ac roedd rhai o'r gwelliannau a amlinellwyd ond yn berthnasol i'r feithrinfa. Byddai cael adroddiad ar wahân ar gyfer y clwb ar ôl ysgol yn galluogi'r arweinwyr i gynllunio ar gyfer newidiadau a oedd yn benodol i'r gwasanaeth hwn yn fwy effeithiol.

Mae'r arweinwyr yn ymrwymedig i wella eu gwasanaeth a dylent ystyried llunio adroddiad ar wahân yn benodol ar gyfer y gwasanaeth hwn er mwyn iddynt allu monitro gwelliannau a chynllunio ar eu cyfer yn well.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gyfarwydd â pholisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth. Roedd ffeiliau'r staff yn cynnwys yr holl wybodaeth roedd ei hangen. Dywedodd un aelod o staff wrthym fod cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal, ei bod yn hawdd mynd at yr arweinwyr, a'i bod yn gallu trafod materion wyneb yn wyneb os oedd angen. Gwelsom dystiolaeth o arfarniadau blynyddol yn ffeil un aelod o staff, ond roedd yr un diweddaraf wedi'i ddyddio mis Rhagfyr 2014. Nododd y person â chyfrifoldeb ei bod yn siŵr bod staff wedi cael eu goruchwylio a'u harfarnu ers hyn ond na nodwyd hynny yn y ffeil.

Dylai'r arweinwyr sicrhau eu bod yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i'r staff fynychu sesiynau goruchwylio ffurfiol ac arfarniadau blynyddol a bod y sesiynau hyn yn cael eu cofnodi.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr a'r staff yn gweithio mewn partneriaeth â'r rhieni mewn ffordd gadarnhaol.

Mae'r arweinwyr yn rhannu gwybodaeth â'r rhieni yn effeithiol. Gwelsom dystiolaeth wedi'i chofnodi o wybodaeth gan rieni yn nodi anghenion penodol eu plant, ynghyd â'u hoff bethau a'u cas bethau. Roedd y staff wedi meithrin cydberthynas gadarnhaol â'r rhieni ac yn rhannu gwybodaeth ar lafar ar ddiwedd pob sesiwn. Roedd gwybodaeth am y gweithgareddau a oedd ar y gweill ar gyfer gwyliau'r ysgol a lluniau o'r plant i'w gweld yn y cyntedd fel bod y rhieni yn ymwybodol o'r hyn roedd eu plant yn ei wneud yn y gwasanaeth. Hefyd, nododd y person â chyfrifoldeb fod lluniau a gwybodaeth yn cael eu rhannu drwy dudalen y gwasanaeth ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn gweithio'n agos gyda'r rhieni a bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom yr argymhellion arfer da canlynol:

- dylai'r staff fod yn ymwybodol o ganllawiau cyfredol a sicrhau eu bod yn dilyn y gweithdrefnau priodol o ran rheoli haint;
- dylai'r arweinwyr sicrhau eu bod yn cynnal arfarniadau blynyddol yn ogystal â rhoi cyfleoedd rheolaidd i'r staff fynychu sesiynau goruchwylio ffurfiol er mwyn trafod unrhyw hyfforddiant angenrheidiol ac unrhyw beth arall y gallent fod am ei godi a bod cofnod yn cael ei gadw o'r sesiynau hyn;
- dylai'r arweinwyr ystyried llunio adroddiad ar wahân yn benodol ar gyfer y gwasanaeth hwn sy'n amlinellu'r adborth a gafwyd oddi wrth y rhieni a'r plant, unrhyw welliannau sydd eu hangen ac unrhyw rai sydd yn yr arfaeth.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 17 Gorffennaf 2018 rhwng 2:50pm a 17:50pm a dychwelodd i archwilio'r gwaith papur ar gyfer y gwasanaeth a rhoi adborth ar 18 Gorffennaf 2018 rhwng 10:40am a 11:45am.

Gwnaethom:

- archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- arsylwi ar arferion a chwblhau arsylwadau er mwyn nodi tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperir gan y staff;
- siarad â'r plant, y staff, y person â chyfrifoldeb a thri rhiant;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant a'r adnoddau ar ddiwrnod ein harolygiad;
- rhoi adborth manwl i'r person â chyfrifoldeb ar yr hyn a nodwyd gennym a materion i fynd i'r afael â nhw.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal y Tu Allan i'r Ysgol** |
| **Unigolion Cyfrifol** | **Judith Owen**<br>**John Owen** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Eirianwen Williams** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **32** |
| **Ystod oedran y plant** | **4-12 oed** |
| **Oriau agor** | **7:30am. - 9:00am a 3:00pm. – 6:00pm. Dydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor, rhwng 7:30am a 6:00pm. Dydd Llun i ddydd Gwener yn ystod gwyliau'r ysgol.** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **10 Mehefin 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad(au) arolygu** | **17 Gorffennaf 2018**<br>**18 Gorffennaf 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Ydy. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol'. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |